Aelodaeth QAA yng Nghymru 2024-25

Yn 2024-25, bydd QAA yn parhau i gefnogi ac annog y diwylliant o welliant yn y sector addysg uwch yng Nghymru trwy gynorthwyo'r sector, staff, myfyrwyr a dysgwyr i hyrwyddo a darparu profiad academaidd o ansawdd uchel trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

Yn 2024-25, bydd QAA yn cefnogi darparwyr addysg uwch yng Nghymru trwy:

Adolygiadau yng Nghymru

Adolygiad Gwella Ansawdd

Gweithio mewn partneriaeth â'r sector, myfyrwyr, dysgwyr a CCAUC (sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) o 1af Awst 2024), i sefydlu a gweithredu'r dull Adolygu Gwella Ansawdd newydd.

Adolygiad Ansawdd Porth (Cymru)

Cynnal Adolygiad Ansawdd Porth (Cymru) ar ran CCAUC (ac yna CADY).

Rhoi myfyrwyr a dysgwyr wrth galon yr adolygiad

Darparu cymorth i fyfyrwyr a dysgwyr sy'n ymwneud â dulliau adolygu QAA yng Nghymru i gynyddu ymgysylltiad a gwerth, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr a Chanllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Adolygiadau.

Gwella profiad myfyrwyr a dysgwyr ledled Cymru

Gwreiddio a hyrwyddo arfer da yn sgil gweithgarwch adolygu, trwy rannu astudiaethau achos arfer da ar draws y sector.

Hyrwyddo dulliau adolygu sy'n seiliedig ar welliant

Recriwtio a datblygu cronfa amrywiol o adolygwyr traws-wladol i gynorthwyo â gweithgarwch adolygu ansawdd ar draws dulliau adolygu sy'n seiliedig ar welliant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwelliant ac arwain sgyrsiau sector

Rhwydwaith Ansawdd Cymru

Datblygu a chefnogi Rhwydwaith Ansawdd Cymru QAA i barhau â'i rôl fel fforwm allweddol ar gyfer proffesiynwyr ym maes ansawdd ar draws y sector trydyddol yng Nghymru. Bydd y fforwm hwn a arweinir gan aelodau ac a gaiff ei gadeirio gan y sector yn parhau i ledaenu arfer da, ymateb i heriau allweddol yn y sector, a hwyluso gwaith cydweithredol a phartneriaeth. Mewn ymateb i adborth, sefydlu cangen newydd o'r Rhwydwaith dan arweiniad aelodau sy'n canolbwyntio ar bartneriaethau yn 2024-25.

Datblygu gweithgarwch gwelliant gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Parhau i weithio gyda CADY i ddatblygu portffolio eang o waith gwelliant, sy'n cyfrannu at flaenoriaethau allweddol y sector gan gynnwys meysydd fel micro-gymwysterau a chryfhau uniondeb academaidd, yn ogystal â hyrwyddo gweithgarwch gwelliant cydweithredol ar draws y sector er budd yr holl ddarparwyr, staff, myfyrwyr a dysgwyr.

Ymagwedd o bartneriaeth at aelodaeth

Cynnal cyfarfodydd cyswllt sefydliadol i ddarparu ymagwedd wedi'i theilwra at Aelodaeth QAA i sicrhau bod eich aelodaeth yn bodloni ac yn cyfrannu at eich anghenion strategol ac yn darparu cefnogaeth i'ch staff, myfyrwyr a dysgwyr yn effeithiol.

Dylanwad a mewnwelediad polisi

Cefnogaeth i lais y sector

Hyrwyddo llais Pwyllgor Cynghori Strategol Cymru, sy'n cynghori Bwrdd QAA, i sicrhau bod gwaith QAA yn parhau i gynnig cymorth i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Yn ogystal, gweithio ar y cyd â grwpiau allweddol a reolir yn allanol i ymgysylltu ac ymgynghori â'r sector, megis Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru a grwpiau ColegauCymru.

Ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid

Parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â CADY i gefnogi datblygiad y dirwedd ansawdd trydyddol yng Nghymru, ochr-yn-ochr â chyrff cyflawni allweddol eraill fel Estyn. Defnyddio'r cyfle hwn i gynnig mewnbwn arbenigol i ddatblygiadau polisi yn seiliedig ar ein mewnwelediadau unigryw o Gymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

Parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn y sector gan gynnwys UCM Cymru, Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cydweithredu ar draws yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

Cydweithredu ar draws addysg drydyddol

Hyrwyddo gwaith cydweithredol ar draws y sectorau addysg drydyddol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio a rhannu arfer trawsffiniol er mwyn gwella profiad myfyrwyr a dysgwyr.

Buddion i'ch sefydliad cyfan

- **Gwylio'r gorwel**: eich arfogi â'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau polisi, rheoleiddiol, cymdeithasol a thechnolegol ledled y DU ac yn fyd-eang.
- **Sicrhau enw da byd-eang addysg uwch y DU am ragoriaeth**: darparu llais sector cyfunol sy'n amddiffyn safonau academaidd ac yn hyrwyddo uniondeb academaidd, wedi'i atgyfnerthu gan gysylltiadau agos QAA â llunwyr polisi, partneriaid rhyngwladol a llywodraethau.
- **Cadw cyfeirbwyntiau'r sector yn ystyrlon a hygyrch**: gan ddangos eich ymrwymiad i sicrhau safonau a gwella ansawdd. Hyn yn ogystal â rhoi llais cryf i chi wrth greu cyfeirbwyntiau sector hanfodol fel Côd Ansawdd y DU a Datganiadau Meincnod Pwnc i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu eich anghenion chi ac anghenion eich myfyrwyr.
- **Bod yn rhan o gymuned aelodaeth effeithiol**: hwyluso dysgu a rhannu mewnwelediadau ar draws darparwyr a phartneriaid eraill gan gynnwys cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol.
- **Ysgogi arloesedd**: datblygu ymagwedd arloesol at welliant, gwerthuso ac adrodd ar bob agwedd o daith y myfyriwr er mwyn gwella deilliannau a mynd i'r afael â gofynion mewnol ac allanol.
- **Grymuso eich staff a chynyddu effeithlonrwydd**: cefnogi datblygiad proffesiynol eich staff, eu harfogi i ddatblygu systemau effeithlon ac effeithiol, diogelu safonau academaidd a gwella profiad dysgu eich myfyrwyr.

Darparu cymorth a datrysiadau ar gyfer...

- Undebau Myfyrwyr
- Ansawdd
- Partneriaethau
- Data a gwybodaeth
- Cynllunwyr strategol
- Adrannau academaidd ac arweinyddiaeth
- Uwch arweinyddiaeth
- Datblygiad rhyngwladol a byd-eang

Mae'r hyn a gynigiwn i'r Aelodaeth wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol fathau a meintiau o ddarparwyr, a rhai sydd a gwahanol genhadaeth. Gall staff a myfyrwyr ar draws pob rôl gydweithio a chyfnewid syniadau â chyfoedion ac arbenigwyr sector trwy rwydweithiau rheolaidd ar gyfer colegau, darparwyr annibynnol ac arbenigol, myfyrwyr, arweinwyr rhaglen, uwch reolwyr academaidd, arweinwyr partneriaethau rhyngwladol, ac arweinwyr ansawdd.

Yn ogystal, mae Aelodaeth QAA yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i chi arddangos eich arfer rhagorol eich hun i gynulleidfaoedd y DU a rhyngwladol trwy gyfrannu at amrywiaeth o ddigwyddiadau ac adnoddau.

Eich helpu i ddysgu ac arloesi

Yn 2023, cymerodd dros 6,000 ohonoch ran mewn digwyddiadau, rhwydweithiau a rhaglenni hyfforddiant i rannu ymagweddau arloesol, trafod heriau, datblygu gwybodaeth, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi. Fe wnaethoch chi gyrchu ystod eang o adnoddau, gan ddarparu ymagweddau craff a thempledi ymarferol - gyda thros 24,000 o lawrlwythiadau yn 2023 yn unig.

Dros 6,000 yn cymryd rhan mewn digwyddiadau

Dros 24,000 o adnoddau'n cael eu lawrlwytho

Pynciau blaenoriaeth ar gyfer 2024-25

Mae ein gweithgareddau'n cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys:

Tueddiadau mewn dysgu, addysgu ac asesu

Addysg seiliedig ar gymhwysedd; Dulliau arloesol o asesu gan gynnwys asesu cynhwysol, asesu tosturiol, dewisoldeb ac asesu dilys; Cynrychiolaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr

Ymgysylltiad byd-eang

Adnoddau gwlad; Partneriaethau rhyngwladol; Datblygu, monitro a rheoli risg; Cefnogi a gwella profiad myfyrwyr rhyngwladol; Sicrhau bod gan AU y DU lais cryf yn Ewrop a ledled y byd

Tegwch a chynhwysiant

Deall deilliannau gwahaniaethol a chau bylchau dyfarnu

Cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth

Cynllunio a darparu prentisiaethau; Cynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n symud rhwng gwaith ac astudio

Llwybrau hyblyg a phontio myfyrwyr

Gweithredu'r Hawl Dysgu Gydol Oes; Defnyddio credyd; Trosglwyddo myfyrwyr; Gwahanol ddulliau astudio

Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ac uniondeb academaidd

Cyfleoedd a heriau deallusrwydd artiffisial; Cynnwys staff a myfyrwyr yn y gwaith o hyrwyddo uniondeb academaidd ar draws pob lefel a dull darparu

Prosesau ansawdd a gwerthuso effeithiol

Prosesau ansawdd sy'n gweithio, yn cefnogi arloesedd ac yn gosod gwerth ar allanoldeb; Gwerthuso effeithiol; Dangos tystiolaeth o fudd addysgol; Defnyddio data wrth wneud penderfyniadau

Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant

Rhaglenni hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a chyfleoedd datblygu gan gynnwys Camu i mewn i Ansawdd; Cyflwyniad i Ansawdd; Ansawdd ar Waith

Ansawdd a Safonau

Datganiadau Meincnod Pwnc; Adnewyddu Cyngor a Chanllawiau Côd Ansawdd y DU; Gweithio gyda chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol; Cyflwyno a dyfarnu mewn partneriaethau; Darpariaeth ôl-raddedig a addysgir ac ymchwil

Prosiectau Gwelliant Cydweithredol

Mae yna dros 60 o brosiectau ar bynciau blaenoriaeth dan arweiniad aelodau gan gynnwys: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; Asesu; Prosesau Ansawdd Arloesol; Partneriaethau; Ymgysylltu â myfyrwyr; Dyfodol byrddau arholi

Archwiliwch eich aelodaeth

Rydym wrth ein bodd yn clywed eich awgrymiadau, adborth a chwestiynau. Mae gan bob darparydd Reolwr Ymgysylltu ar gyfer yr Aelodaeth a gallwch hefyd gysylltu drwy e-bost.

Ewch i mewn i Safle Adnoddau'r Aelodaeth

Cofrestrwch ar gyfer digwyddiadau

Gallwch ganfod mwy am Aelodaeth QAA

Cofrestrwch ar gyfer ein Cylchlythyr Aelodau a chylchlythyr QAA Cymru

Adnewyddu eich aelodaeth ar gyfer 2024-25

Mae adnewyddu yn syml. Byddwn yn e-bostio dolen i'ch ffurflen adnewyddu i chi tua dechrau mis Mai. Cliciwch ar y ddolen i gyflwyno'ch ffurflen ac fe wnawn ni'r gweddill!

Rydym bob amser ar gael i helpu. Cysylltwch â'ch Cyswllt QAA neu anfonwch e-bost atom.

ARCAdmin@qaa.ac.uk

Cyhoeddwyd - 1 Mai 2024
© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk